**MEMO**

**AT: SIMON GILBERT,**
**PENNAETH CYNLLUNIO**

**Gorffennaf 2023**

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL (CCA) ADDYSG**
**FFIGURAU GWAELODLIN CYFRANIAD ADRAN 106 WEDI EU DIWEDDARU**

Ysgrifennaf atoch i'ch cynghori bod y ffigurau cyfraniad gwaelodlin a nodir yn y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) Addysg wedi'u haddasu yn unol â methodoleg a nodir yn y CCA a'r Mynegai Prisiau Tendr cyflawn (chwarter cyntaf 2023). Mae'r ffigurau wedi cynyddu tua 85% ar gyfer costau lleoedd cynradd a tua 75% ar gyfer costau lleoedd uwchradd yn seiliedig ar ddarpariaeth gynradd 2DM (gan gynnwys 48 lle meithrinfa cyfwerth ag amser llawn) a darpariaeth uwchradd o 8DM (gan gynnwys 320 lle 6$^{fed}$ dosbarth) sy'n rhoi'r cyfansymiau canlynol:

Cost fesul lle ysgol disgybl cynradd: £19,855

Cost fesul lle ysgol disgybl uwchradd: £32,798

Gan fod y ffigurau hyn yn cynrychioli costau ar gyfer adeiladau ysgol yn chwarter cyntaf 2023, bydd mynegeio sy'n defnyddio'r Mynegai Prisiau Tendr cyflawn yn cael ei gymhwyso i'r costau hyn o'r dyddiad hwn hyd at ddyddiad perthnasol derbyn y cyfraniadau.

Nid oes unrhyw newidiadau eraill i'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo cyfraniadau.

Rwy'n bwriadu defnyddio'r ffigurau hyn ar unwaith hyd nes y cynhyrchir Canllaw Atodol newydd.

Cysylltwch â Brett Andrewartha, Rheolwr Cynllunio Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir

Richard Portas
**Cyfarwyddwr Rhaglen**
**Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion**